O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 382 (Cy. 117)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Man i'r De o Garno i Glatter, Powys) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Chwefror 2016* |
| *Yn dod i rym* | *29 Chwefror 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A470) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Chwefror 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Man i'r De o Garno i Glatter, Powys) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 29 Chwefror 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw:

i. y darn o’r gefnffordd i’r de o Garno yn Sir Powys sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r U2548 i ganolbwynt ei chyffordd â’r U4605;

ii. y darn o’r gefnffordd yng Nghlatter yn Sir Powys sy’n ymestyn o arwydd parhaol y terfyn cyflymder cenedlaethol ym mhen deheuol y pentref hyd at arwydd y terfyn cyflymder cenedlaethol ym mhen gogleddol y pentref.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n fwy na 2.5 metr o led, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o’r fath, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Chwefror 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.